Cyflwyno Newid Hinsawdd: Ddoe, Heddiw, ac Yfory

Gweithgaredd 7: Llinell amser Y Dyfodol

***Noder**: Gellid hefyd ymgymryd â'r gweithgaredd hwn yn ddiweddarach yn y cynllun gwaith newid hinsawdd, gan ei fod yn darparu pwynt da i ystyried pa gamau y gall disgyblion eu cymryd yma a nawr, ac y byddant hefyd wedi elwa o ymgymryd ag astudiaeth bellach, a fydd yn ysgogi eu syniadau am wahanol ddyfodol posibl.*

Oed: 8+

Nod
Edrych ar y ffyrdd y gall tueddiadau newid hinsawdd effeithio ar ddyfodol personol a byd-eang dan wahanol amodau, ac ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn gwireddu'r dyfodol y mae'r disgyblion yn dymuno ei weld.

Bydd angen
Copi o ddiagram llinell amser Y Dyfodol (isod) ar gyfer bob disgybl (bydd modd i'r mwyafrif o ddisgyblion ei gynhyrchu eu hunain).

Beth i'w wneud
Cyn ymgymryd â'r gweithgaredd hwn gyda'ch disgyblion, gall y cyflwyniad canlynol i'r gweithgaredd (o'r sylwebaeth gan yr arloeswr, David Hicks, ar wefan Geography Teaching Today) fod yn ddefnyddiol wrth ystyried yr hyn y gellid ei gyflawni a'r cyfeiriad posib.

'Mae llunio llinellau amser Y Dyfodol yn codi cwestiwn mawr i fyfyrwyr. Bydd angen iddynt ystyried: ai dyma'r dyfodol sydd fwyaf tebygol yn ein barn ni, neu'r un yr ydym yn dymuno ei weld? Mae'r cwestiwn hwn yn amlygu un o'r gwahaniaethau amlycaf wrth feddwl am y dyfodol. Ar un llaw mae gennym ddyfodol tebygol – hynny yw, sydd i'w weld yn fwyaf tebygol o ddigwydd yn sgil tueddiadau cyfredol. Mae dyfodol tebygol yn canolbwyntio ar yr hyn y mae pobl yn disgwyl ei weld yn digwydd mewn lleoliad arbennig neu o ran mater arbennig. Yn gyferbyniol, dyfodol dymunol yw'r hyn yr ydym yn dymuno ei weld yn digwydd. Mae dyfodol dymunol yn adlewyrchu ein gwerthoedd, dymuniadau a blaenoriaethau dyfnaf., Gellid tynnu llinell amser tebygol a dymunol ar wahân, neu gyda'i gilydd, fel gwelir yn Ffigwr 4.3.'

Ffigwr 4.3 Hicks, D. W. (2006) Lessons for the Future: the missing dimension in education, Oxford: Trafford Publishing.

Hawlfraint © Oxfam GB. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgiadol yn unig.



Mae ochr chwith y llinell amser yn dangos digwyddiadau'r gorffennol a thueddiadau cyfredol sydd wedi bod yn arwyddocaol wrth newid yr hinsawdd. Efallai yr hoffech lenwi'r rhan hon fel gweithgaredd dosbarth cyfan.

Yna gofynnwch i'r disgyblion nodi ar y llinell 'Dyfodol Tebygol', y digwyddiadau a thueddiadau y maent yn disgwyl eu gweld yn digwydd o fewn y ganrif nesaf o ganlyniad i newid hinsawdd. Gellid gwneud hyn ar gyfer ardal leol, neu ar lefel genedlaethol neu fyd-eang – neu'r tri!

Gofynnwch i'r disgyblion nodi ar y llinell 'Dyfodol Dewisol', y digwyddiadau a thueddiadau yr hoffent eu gweld yn digwydd o fewn y ganrif nesaf o ran newid hinsawdd.

Trafodaeth bellach – ystyriwch fel dosbarth (neu mewn grwpiau bach) pa gamau sy'n angenrheidiol er mwyn troi'r dyfodol tebygol i fod fel y dyfodol dewisol. Hefyd ystyriwch pwy ddylai gymryd y camau hyn a beth fyddai swyddogaeth y disgyblion i helpu i wireddu'r dyfodol dewisol.